# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 4

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y WEITHDREFN AR GYFER CODI'R DRETH

### 47 Yr amod ar gyfer codi treth

(1) At ddibenion y Bennod hon, mae person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy os yw'r person—

(a) wedi gwneud y gwarediad, neu

(b) wedi achosi neu ganiatáu i'r gwarediad gael ei wneud, gan wybod ei fod yn gwneud hynny.

(2) At ddibenion is-adran (1)(b)—

(a) mae person a oedd, pan wnaed y gwarediad, yn rheoli, neu mewn sefyllfa i reoli, cerbyd modur neu ôl-gerbyd y gwnaed y gwarediad ohono i'w drin fel pe bai wedi achosi i'r gwarediad gael ei wneud, gan wybod ei fod yn gwneud hynny, a

(b) mae person a oedd, pan wnaed y gwarediad, yn berchennog, yn lesddeiliad neu'n feddiannydd y tir lle y gwnaed y gwarediad i'w drin fel pe bai wedi caniatáu i'r gwarediad gael ei wneud, gan wybod ei fod yn gwneud hynny,

oni bai bod y person yn bodloni ACC neu (ar apêl) y tribiwnlys nad achosodd neu na chaniataodd y person i'r gwarediad gael ei wneud, gan wybod ei fod yn gwneud hynny.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 47. (See end of Document for details)*

(a) amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod ar gyfer codi treth, neu

(b) materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw person yn bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod hwnnw.

(4) Caiff y rheoliadau ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 47 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 47.